

## EVANS, HENRY ('Harri Evan William'; fl. diwedd y 17eg ganrif), bardd a chyfieithydd

**Enw:** Henry Evans

**Ffugenw:** Harri Evan William

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** bardd a chyfieithydd

**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** Walter Thomas Morgan

Brodor o Fedwellte, sir Fynwy, Yn 1771 cyhoeddodd [Thomas Williams](#), Mynydd-bach, Sir Gaerfyrddin, gyfrol o farddoniaeth o'i eiddo wedi ei chyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg dan y teitl *Cynghorion Tad i'w Fab* a gynhwysai lythyr oddi wrth [Stephen Hughes](#), dyddiedig 12 Mawrth 1682-3, a ddywed iddo dderbyn y llyfr oddi wrth yr awdur i'w gyhoeddi; felly yr oedd yr awdur yn gydoeswr â [Stephen Hughes](#). Cyhoeddwyd hefyd yn 1764 waith gwreiddiol o farddoniaeth, sef *Ymddiddan Hen Wr Dall a'r Angau* (ac argraffiadau eraill yn 1781 a 1807). Ar wyneb-ddalen yr argraffiad diwethaf rhoddir enw'r awdur fel 'Harri Evan William o'r Bedwellty, sir Fynwy.'

### Awdur

**Walter Thomas Morgan**, (1912 - 1990)

### Ffynonellau

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 164-6

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 265, 606

### Gweithiau

Henry Evans, *Can dduwiol, yn dangos yr union a'r unig ffordd i'r nefoedd, trwy anorchfygol rinwedd gwaed yr Oen* (Aberhonddu 1772)

Henry Evans, *Ymddiddan rhwng hen wr dall a'r angeu* (Caerfyrddin 1770)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733144](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

